

Y nefoedd – breuddwyd ffŵl

“Oherwydd nid i gysegr o waith llaw ... yr aeth Crist i mewn, ond i'r nef ei hun.”
(ad. 24)

Beth am ddarlenn Hebreaid 9:11–28 ac yna myfyrio.

Yr ydym am droi ein sylw yn y gyfrol yma i destun lle nad oes yna fawr o ysgrifennu wedi bod arno yn ein cenhedlaeth ni – y nefoedd. Yr oedd ein tadau yn y ffydd yn siarad ac yn ysgrifennu yn gyson am y pwnc yma, ond heddiw, am ryw reswm, anarferol iawn yw unrhyw drafodaeth ar y mater. Efallai mai un o'r rhesymau am hyn yw bod dangos gormod o ddiddordeb yn y nefoedd yn ein gadael yn agored i'r cyhuddiad ein bod yn meddwl am fyd arall yn hytrach na byw yn y byd yma. Yn ystod y degawdau diwethaf, mae yna bwyslais wedi bod ar yr Efengyl gymdeithasol i'r fath raddau fel bod llawer iawn ohonom yn ofni siarad am y nefoedd, rhag ofn inni orfod wynebu y cyhuddiad o goleddu breuddwyd ffŵl. Mae angen dweud yn syth nad yw yr Efengyl gymdeithasol yn Efengyl gyflawn. Does gennym ddim lle i fod yn anystyriol o'n cyfrifoldeb i'r gymuned, ein gwlad, y byd, ac fe ddylem wneud pob peth o fewn ein gallu, er mwyn esmwytháu cur y rhai hynny sydd mewn angen. Er hynny, ni ddylem gollu golwg ar y ffaith mai'r unig Jerwsalem newydd a welwn ni yw honno fydd yn dragwyddol ac yn y nefoedd. Nid dynion fydd wedi adeiladu hon.

Mae rhai o'r diwygwyr cymdeithasol mwyaf, er enghraifft, John Wesley, yr Arglwydd Shaftesbury, a William Booth, wedi bod yn bobl oedd wedi eu meddiannu gan Dduw, pobl oedd yn cadw'r nefoedd yn gyson o flaen eu llygaid, ac oherwydd hynny yn gweithio yn gydwobodol yn y byd, oherwydd, trwy ffydd, yr oedd yr hyn sydd berffaith bob amser yn eu golwg. Nid byw mewn byd arall yw siarad a meddwl am y nefoedd, mor belled ag ein bod ni yn rhoi amser priodol i eraill hefyd. Felly, does yna ddim ymddiheuriad am gyfeirio eich meddyliau tuag at y nefoedd. Hwn, wedi'r cyfan, yw pen draw ein taith, nod pob Cristion. Yma, pererinion ydym, yno yr ydym yn perthyn. Ni ddylai dim byth ganiatáu inni anghofio hyn.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Math. 13:24–47; 20:21; 22:2; 25:1

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut yr oedd Iesu'n disgrifio'r nefoedd?
2. Beth yw goblygiadau hyn?

Gweddi

Dad trugarog a graslon, helpa fi i ddeall fod cadw y nefoedd o flaen fy llygaid yn wastad ddim yn golygu fy mod i esgeuluso fy nghyfrifoldebau fel pererin yn y byd. Yn hytrach, mae cadw'r nefoedd yn fy ngolwg am fy ngwneud yn fwy effeithiol yn y byd. Rwy'n gweddïo yn enw Iesu. Amen.